# Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

# Cofnodion

**Teitl y Cyfarfod:**

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 22 Mawrth 2021

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Dennis Matheson, TFA

Creighton Harvey, CFF

Bob Vaughan, CNC

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Marc Williams, CNC

James Ruggeri, HCC

Edward Davies, CNC

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL)

Spencer Conlon, LlC

Andrew Chambers, LlC

Nichola Salter, CNC

Shane Thomas, CFF

Jamie McCoy, AHDB

Geraint Hamer, LlC

Katy Simmons, CNC

Lee Price, Cyswllt Ffermio

Delyth Lewis-Jones, AHDB

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Meinir Wigley, CNC

Fraser McAuley, CLA

Kate Snow, United Utilities

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Ruth Johnston, CNC

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

Tristan Hatton-Ellis, CNC (Eitem 4 yn unig)

**Ysgrifenyddiaeth:**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Elizabeth Franks, Hafren Dyfrdwy

Mark Alexander, LIC

Sarah Hetherington, CNC

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Sylwer bod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cwblhau.

2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau i'w hystyried ar yr Agenda.

    - DS: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent hefyd ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

3. Gan fod cyn lleied o amser ers y cyfarfod diwethaf, awgrymodd y Cadeirydd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth yn cael eu trafod a'u cymeradwyo yng nghyfarfod mis Ebrill, er mwyn rhoi digon o amser i'r aelodau ddarllen trwyddynt.

4. Dywedodd y Cadeirydd fod cais wedi dod i law oddi wrth Creighton Harvey, CFF yn gofyn am ychwanegu eitem 'Materion yn Codi' at agendâu'r cyfarfodydd yn y dyfodol.

5. Mae Llywodraeth Cymru wedi anfon neges e-bost at y grŵp ynghylch y canllawiau ar gyfer Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Gofynnodd y Cadeirydd i Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, roi diweddariad byr i'r grŵp.

   Dywedodd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, ei fod yn gobeithio bod yr aelodau wedi gweld y neges e-bost a ddosbarthwyd. Y nod yw cyhoeddi'r canllawiau heddiw ac unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi, bydd y grŵp yn cael neges i ddweud bod y canllawiau'n fyw ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd y canllawiau'n cynnwys dogfen Cwestiynau Cyffredin, sef dogfen fyw y bydd modd ei hadolygu, ei diwygio ac ychwanegu ati wrth fynd ymlaen, gyda mewnbwn gan randdeiliaid a'r grŵp hwn. Cwestiynau ynghylch tir tenantiaid fydd yr elfen gyntaf o'r Cwestiynau Cyffredin i gael ei hychwanegu. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud rhai trefniadau terfynol ac yna bydd yn cylchredeg yr adran honno i aelodau'r grŵp hwn, cyn ei chyhoeddi ar y wefan.

   Wrth i ni symud ymlaen, mae Llywodraeth Cymru am weithio gyda'r grŵp a sefydliadau unigol i ddatblygu negeseuon a gwybodaeth fel bod y rheiny'n amserol ac yn briodol.

6. Diolchodd y Cadeirydd i Spencer am ei ddiweddariad byr a dywedodd y bydd rhannu negeseuon clir a chyson â ffermwyr yn allweddol.

## Eitem 2 Cyfathrebiadau Cyswllt Ffermio

7. Rhoddodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, ddiweddariad i'r grŵp trwy amlinellu'r cynlluniau cyfathrebu a'r deunyddiau a fydd yn cael eu dosbarthu ynghylch Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

8. Dywedodd Einir fod Cyswllt Ffermio yn gweithio ar yr ymgyrch gyfathrebu ar ran Llywodraeth Cymru. Esboniodd Einir y bydd y gwaith, yn y tymor byr, yn golygu cyhoeddi gwybodaeth ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol. Bydd dau fideo byr yn cael eu postio ar-lein; y cyntaf ar ddydd Iau 25 Mawrth a'r ail ar ddydd Iau 1 Ebrill. Bydd cynnwys y fideo cyntaf yn 'gosod y llwyfan' trwy gynnwys y negeseuon allweddol ac amlinellu'r cymorth a fydd ar gael trwy raglen Cyswllt Ffermio. Bydd yr ail fideo, a gaiff ei bostio ar 1 Ebrill, yn fwy graffigol a darluniadol ei natur ac yn rhoi crynodeb o'r dyddiadau allweddol ac amlinelliad o'r rheoliadau ar y dyddiadau hyn. Cyhoeddir dolen i'r fideos hyn ar Facebook, Twitter ac Instagram.

9. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyfeiriad i Gyswllt Ffermio o ran y camau cyfathrebu nesaf.

10. Cyfeiriodd Einir at gwmpas llwyfannau cyfryngau cymdeithasol Cyswllt Ffermio, gan ddweud bod gan y cynllun 9,800 o ddilynwyr ar Facebook a bod rhai o'r fideos wedi cael eu gwylio mwy na 5,000 o weithiau yn y mis diwethaf. Mae gan Gyswllt Ffermio lai o ddilynwyr ar Twitter, sef 5,800 o bobl.

11. Diolchodd y Cadeirydd i Einir am y diweddariad a gwahoddodd gwestiynau gan y grŵp.

12. Dywedodd Katy Simmons, CNC, ei bod hi wedi nodi dyddiadau postio fideos Cyswllt Ffermio. Dywedodd y gallai CNC rannu'r fideos ar ei lwyfannau, gan gynnwys Facebook, Instagram a Twitter, er mwyn helpu i sicrhau bod y fideos yn cael eu rhannu mor eang â phosibl.

13. Dywedodd Delyth Lewis-Jones, AHDB y byddai cael gwybod beth yw'r cynllun cyfathrebu yn y tymor hwy yn ddefnyddiol, er mwyn i sefydliadau allu teilwra gwybodaeth benodol sy'n rhoi sylw i anghenion y sector. Rydym am weithio gyda'r hyn y mae Cyswllt Ffermio yn ei wneud, gan ychwanegu gwerth heb ddyblygu gwybodaeth. Dywedodd Einir fod y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ond bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r cyfeiriad i Gyswllt Ffermio. Gofynnodd Delyth pryd y mae'r cynllun cyfathrebu tymor hwy yn debygol o fod ar gael gan fod AHDB yn cael llif o alwadau ffôn ac mae'n awyddus i helpu ffermwyr i ddeall y newidiadau hyn. Mae ar AHDB angen gwybod a oes angen iddo wneud gwaith ychwanegol neu beidio, beth sydd ar y gweill a beth fydd yn digwydd yr wythnos nesaf neu fis nesaf. Dywedodd Einir ei bod hi'n cytuno bod angen i'r aelodau gydweithio ond nid oedd y cynllun cyfathrebu tymor hwy yn hysbys ar hyn o bryd. Dywedodd Einir y byddai'n rhannu gwybodaeth ag Is-grŵp WLMF cyn gynted ag y byddai'n gwybod rhywbeth.

14. Soniodd Dennis Matheson, TFA, am ei bryder ynghylch pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol ac yr oedd am wybod sut y byddai Cyswllt Ffermio'n cyrraedd y ffermwyr hyn. Roedd Einir yn cytuno bod hwn yn bwynt dilys. Mae gan Gyswllt Ffermio gyhoeddiad technegol sy'n cael ei ddosbarthu, ar ffurf copi papur, bob chwarter ac mae'n debygol y bydd y tîm marchnata'n defnyddio hwn i'r eithaf pan fydd Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfeiriad iddynt.

    Roedd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, yn cytuno â phwynt Dennis ynghylch y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

15. Roedd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, am ddweud unwaith eto fod ar Lywodraeth Cymru eisiau gweithio gyda'r grŵp hwn i rannu'r negeseuon allweddol. Mae gan sefydliadau yn y grŵp hwn eu sianeli eu hunain ar gyfer cyfathrebu â'u haelodau a gallwn helpu i rannu'r negeseuon allweddol ym mha bynnag fodd trwy weithio gyda'n gilydd. Mae gan yr aelodau gyfrifoldeb ar y cyd i ledaenu'r wybodaeth hon i ffermwyr ac nid oedd yn dasg i Lywodraeth Cymru a Chyswllt Ffermio yn unig.

16. Gofynnodd y Cadeirydd i Einir pa negeseuon allweddol y mae Cyswllt Ffermio yn eu rhannu a sut y mae'n gwneud y rhain yn glir i ffermwyr. Dywedodd Einir nad oedd hi wedi gweld y fideo sydd i gael ei bostio ddydd Iau eto ond byddai'n holi amdano ac yn ei rannu â'r grŵp yn ddiweddarach heddiw.

17. Dywedodd Bob Vaughan, CNC, ei fod ef a Katy yn fodlon gweithio gyda Chyswllt Ffermio i ledaenu'r negeseuon allweddol a chydweithio i ddarparu pecyn gwybodaeth i aelodau'r Is-grŵp y byddai modd ei ddefnyddio wedyn i'w helpu i gyfathrebu â'u haelodau. Dywedodd Einir y byddai'n cael gair â'r Tîm Marchnata i weld a fyddai modd rhannu dolen i'r fideo ag aelodau'r Is-grŵp cyn iddo gael ei gyhoeddi ddydd Iau.

***PG 01 Mawrth: Bod Einir Williams, Cyswllt Ffermio, yn edrych ar rannu'r fideo â'r Is-grŵp cyn iddo gael ei bostio ddydd Iau.***

18. Cadarnhaodd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, fod hwn yn fideo byr iawn, yn fwriadol, oherwydd bod Llywodraeth Cymru am ledaenu'r prif negeseuon, er enghraifft ynghylch yr hyn y bydd angen ei wneud a'r hyn na fydd angen ei wneud ar 1 Ebrill – beth fydd yn dod i rym a beth na fydd yn dod i rym. Mae'r fideo'n rhannu neges galonogol, sef na fydd popeth yn dod i rym ar 1 Ebrill, ac yn cyfeirio at weithredu fesul cam.

19. Dywedodd Creighton Harvey, CFF, fod y Ffederasiwn wedi cyhoeddi dogfen ynghylch y rheoliadau ac wedi dweud wrth ei aelodau nad yw CNC wedi cael canllawiau eto. Mae CFF wedi rhoi cyngor i'w aelodau ynghylch rhoi gwybod am ddigwyddiadau gydag ychwanegiad ynghylch beth i'w wneud mewn perthynas â'r rheoliadau. Dywedodd Creighton fod CFF yn aros i glywed gan CNC ynghylch beth fydd y polisi cyn ei gylchredeg i'w aelodau. Dywedodd Creighton ei fod yn pryderu na fydd pobl yn deall y rheoliadau'n llwyr ac y byddant yn mynd allan wedyn ar 1 Ebrill i roi gwybod am ddigwyddiadau tybiedig a dechrau gorlwytho'r system. Bydd hi'n sefyllfa anodd nes bod CNC yn darparu canllawiau ynghylch sut y mae'n bwriadu llwybro.

20. Soniodd Fraser McAuley, CLA, fod y Gymdeithas wedi bod yn cyhoeddi gwybodaeth am gyflwyno'r rheoliadau, yn ogystal â'i strwythur rheoli, ar ffurf e-newyddion ac ar ei sianeli cyfryngau cymdeithasol. Mae'r CLA yn aros am y canllawiau terfynol a bydd yn eu rhannu pan fyddant ar gael. Mae pobl sy'n methu mynd ar-lein oherwydd diffyg cysylltiad neu ymwybyddiaeth yn bryder allweddol, felly mae'r CLA yn edrych ar ddefnyddio dulliau cyfathrebu eraill, megis cylchgrawn y Gymdeithas.

21. Cyfeiriodd Dennis Matheson, TFA, at drafodaeth yng nghyfarfod diwethaf Taliadau Gwledig Cymru (RPW). Mae gan Dennis gopi o'r rheolau trawsgydymffurfio diweddaraf, yr adran gyfan ynghylch y rheolau llygredd newydd a'r amseriadau, a'r ffordd y cânt eu hymgorffori mewn trawsgydymffurfio tra bydd Cynllun y Taliad Sylfaenol yn dal i fod mewn grym. Gofynnodd Dennis a fydd RPW yn cadw llygad ar y rhannau o'r rheolau a ymgorfforir mewn trawsgydymffurfio, gan y gallai hynny arwain at ddau gorff rheoleiddio yn gwneud yr un gwaith. Os bydd y rheolau trawsgydymffurfio newydd gan ffermwyr sy'n cyflwyno cais i Gynllun y Taliad Sylfaenol, bydd yr holl reolau ynghylch llygredd amaethyddol ganddynt hefyd.

22. Gofynnodd y Cadeirydd i Einir a oedd unrhyw gynlluniau i ddefnyddio rhestr bostio i gysylltu â'r holl ffermwyr erbyn 1 Ebrill. Dywedodd Einir nad oedd cynlluniau ar hyn o bryd ond bod yr adnoddau gan Gyswllt Ffermio i lunio rhestr pe penderfynid gwneud hynny fel rhan o'r ymgyrch.

    Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y grŵp o'r farn y dylid postio gwybodaeth at bob ffermwr neu a yw'r aelodau'n hyderus y bydd ffermwyr yn cael yr wybodaeth trwy un sefydliad neu'r llall ac yn ei deall yn dda.

    Roedd Creighton Harvey, CFF, yn cytuno bod postio at bob ffermwr yn syniad da gan nad yw pob ffermwr yn aelod o'r sefydliadau perthnasol. Byddai rhestr bostio sy'n cwmpasu pob ffermwr yn sicrhau bod un dull cyfathrebu yn cyrraedd pob ffermwr.

    Dywedodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, y dylid manteisio ar bob cyfle a defnyddio pob dewis i hyrwyddo'r rheoliadau a rhannu negeseuon â phobl, boed hynny trwy brint, y cyfryngau cymdeithasol, y cyfryngau digidol y telir amdanynt, datganiadau i'r wasg ac ati, i helpu i ddangos y ffordd. Gallai Cyswllt Ffermio hefyd ystyried defnyddio'r graffigwaith o'r fideo mewn hysbysebion y telir amdanynt. Ni ellir dibynnu ar un ffynhonnell gyfathrebu yn unig.

    Diolchodd Einir i'r grŵp am eu mewnbwn a dywedodd y byddai'n rhoi'r awgrymiadau i'r Tîm Marchnata i'w trafod â Llywodraeth Cymru. Mae'r gronfa ddata'n cynnwys 11,500 o fusnesau sydd wedi ymgofrestru â Chyswllt Ffermio a dylai bod modd cyrraedd y rhain i gyd pe defnyddid y llwybr postio.

Dywedodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, fod y cwmni wedi talu yn y gorffennol am osod hysbysebion yng nghyhoeddiadau Agri Trader, a bu hynny'n llwyddiannus ac yn ddefnyddiol iawn. Dywedodd Sarah hefyd y byddai anfon negeseuon e-bost at bobl yn fodd i leihau costau a chynnwys dolenni uniongyrchol i wefan Llywodraeth Cymru.

23. Roedd Chris Mills, WEL, yn rhyfeddu nad oedd rhestr swyddogol o fusnesau ffermio ledled Cymru. Byddai'n ddiddorol gwybod pa ganran o holl gymuned ffermio Cymru yw'r 11,500, gan yr awgrymir bod mwy nag 20,000 o ffermwyr yng Nghymru. Pan sonnir felly am gyrraedd ffermwyr yn derfynol, dim ond tua hanner y gymuned ffermio y byddid yn ei gyrraedd, mewn gwirionedd, ar y sail hon.

Cadarnhaodd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, fod yr 11,500 o fusnesau ffermio yn cyfeirio at y rhai sydd wedi ymgofrestru â Chyswllt Ffermio. Byddai gan Lywodraeth Cymru fanylion cyswllt pawb sy'n hawlio o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol wrth reswm. Ni fyddai gan Lywodraeth Cymru fanylion cyswllt busnesau ffermio nad ydynt yn hawlio o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol neu sydd heb ymgofrestru ag un o fecanweithiau eraill Llywodraeth Cymru. Nid oes cynllun ar waith sy'n gorfodi ffermwyr i ymgofrestru.

Dywedodd y Cadeirydd fod mynediad at restr Cynllun y Taliad Sylfaenol yn fater sensitif ond gofynnodd a fyddai Llywodraeth Cymru neu Gyswllt Ffermio yn ystyried postio gwybodaeth at y ffermwyr hynny sydd ar y rhestr.

Dywedodd Spencer fod post uniongyrchol yn cael ei ystyried ym mhob ymgyrch i ledaenu gwybodaeth. Roedd y cyhoeddiad hwn wedi cael cryn sylw yn y cyfryngau ac ystyrir bod ei broffil yn eithaf uchel. Disgwylir felly fod cyfran fawr o ffermwyr yn ymwybodol bod newidiadau ar ddod, er na fyddai'r manylion ganddynt o bosibl. Mae i bost uniongyrchol ei le, ond mae Llywodraeth Cymru yn symud mwyfwy at sianeli digidol, ond mae'n derbyn na all pawb ymgysylltu'n ddigidol. Y broblem â phost uniongyrchol, meddai Spencer, oedd ei fod yn dyddio'n gyflym iawn a gofynnodd sut y mae modd sicrhau bod gan ffermwyr yr wybodaeth ddiweddaraf yn eu ffeil. Er enghraifft, bydd y Cwestiynau Cyffredin yn ddogfen fyw a gaiff ei diweddaru, ei diwygio a'i newid er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf un ar gael i ffermwyr.

Awgrymodd y Cadeirydd y gellid defnyddio'r rhestr bostio i gyfeirio ffermwyr at yr wybodaeth ddiweddaraf neu ddangos iddynt lle y mae'r wybodaeth honno i'w chael, e.e. ar wefan Llywodraeth Cymru.

24. Dywedodd Chris Mills, WEL, mai'r brif flaenoriaeth, yn bendant, yw sicrhau bod holl ffermwyr Cymru yn ymwybodol o'r rheoliadau hyn, felly beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni hynny. Byddai modd rhoi sylw i fanylion y rheoliadau o ran 'beth' a 'phryd' ar ôl i ni gyrraedd pawb.

Roedd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, yn cytuno bod rhoi gwybod i ffermwyr am y rheoliadau yn flaenoriaeth ond awgrymodd nad cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yn unig oedd cyrraedd ffermwyr. Dywedodd Spencer fod gan rai o randdeiliaid yr Is-grŵp lawer o aelodau, cyhoeddiadau a'r modd i ledaenu negeseuon i ffermwyr. Roedd Spencer yn gobeithio y byddai hwn yn ymdrech ar y cyd ac nid yn dasg i Lywodraeth Cymru neu Gyswllt Ffermio yn unig.

Dywedodd Bob Vaughan, CNC, fod CNC yn ddigon parod i ymgysylltu a gwneud beth bynnag a allai i ledaenu'r negeseuon er mwyn i ffermwyr ddeall ystyr y rheoliadau a gwybod beth fydd rôl CNC o ran y rheoliadau.

25. Gofynnodd y Cadeirydd i'r grŵp rannu'r gweithgareddau y mae eu sefydliadau'n ymgymryd â nhw er mwyn cyfathrebu â'u haelodau.

26. Amlygodd Jamie McCoy, AHDB, y gofynnwyd i AHDB sicrhau, fel sefydliad cydweithredol, fod modd iddo gyfeirio pob ffermwr i un lle. Fodd bynnag, roedd gwir angen i'r grŵp gael golwg ar y cynllun cyfathrebu llawn cyn gynted â phosibl, er mwyn sicrhau bod modd integreiddio'r cymorth yr ydym i gyd yn gallu ac yn fodlon ei gynnig er mwyn helpu i ledaenu'r gair. Dywedodd Jamie ei bod hi'n siarad â ffermwyr llaeth yn bennaf a'u bod nhw, o bosibl, yn pryderu ychydig yn fwy am y rheoliadau na rhai sectorau ffermio eraill. Fodd bynnag, mae yna elfen o banig yn bendant ac mae angen i'r holl ffermwyr ddeall y goblygiadau llawn, er mwyn iddynt fedru cynllunio ar gyfer y cyfnod pontio cyfan. Bydd angen i rai ffermwyr wneud newidiadau enfawr a chostus i'w busnesau, i strwythur y busnes, i fuddsoddiadau, i ddwysedd stocio ac ati, felly mae gofyn iddynt gynllunio ar gyfer hynny yn awr. Efallai na fydd y rheoliadau'n newid yn ddigon sylweddol i achosi iddynt bryderu am systemau storio ar 1 Ebrill, ond bydd angen iddynt ddechrau cynllunio ar gyfer hynny ar unwaith. Dywedodd Jamie po gynharaf y bydd y cynllun cyfathrebu llawn ar gael, y cynharaf y gall y grŵp bennu'r ffordd orau o integreiddio cymorth a chyfleoedd ag ef.

    Mae AHDB wedi trefnu gweminar sy'n targedu ffermwyr llaeth Cymru i'w helpu i ddeall y rheoliadau. Fe'i cynhelir ar 1 Ebrill o dan arweiniad Keith Owen a Chris Duller. Bu llawer o ddiddordeb yn y weminar hyd yn hyn, felly dylai fod yn gam cyntaf da o ran helpu ffermwyr i ddeall y rheoliadau. Mae AHDB wedi paratoi rhai Cwestiynau Cyffredin ond wedi dal yn ôl rhag eu cyhoeddi ar y wefan gan fod Cwestiynau Cyffredin Llywodraeth Cymru ar fin cael eu cyhoeddi ac nid oedd am wrthdaro â'r rhain na'u gwrth-ddweud. Mae gan AHDB lawer o syniadau hefyd am gymorth arall y bydd ei angen ar ffermwyr yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod ond bydd angen iddo gael golwg ar gynllun cyfathrebu llawn Cyswllt Ffermio yn gyntaf cyn ymrwymo i ddim, er mwyn sicrhau na fydd yn dyblygu gwybodaeth nac yn gadael bylchau.

27. Dywedodd Bernard Griffiths, FUW, fod yr Undeb wedi bod yn cysylltu â'i aelodau yn gyffredinol trwy ddulliau electronig. Dywedodd Bernard fod problem o ran y bwlch rhwng ffermwyr sy'n aelodau o undebau'r ffermwyr a'r miloedd o ffermwyr sydd heb ymgofrestru â sefydliadau ac sy'n fwyaf tebygol o ddibynnu ar gael gwybodaeth ar bapur trwy'r post. Felly, byddai FUW yn cefnogi rhestr bostio ond nid oes adnoddau ganddo i allu gwneud y math hwn o waith ac y mae, o ganlyniad, yn dilyn y llwybr electronig ar hyn o bryd.

    Dywedodd Bernard mai'r strategaeth gyfathrebu sydd dan sylw ar hyn o bryd, yn hytrach na'r negeseuon eu hunain. Mae'r dyddiadau cyflwyno fesul cam yn ddefnyddiol ac yn gymorth o ran gweithredu o dipyn i beth.

28. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, fod pawb sy'n hawlio'r taliad sylfaenol yn gorfod glynu wrth y gofynion trawsgydymffurfio. Mae bron pob un o'r rheolau hyn wedi'u cynnwys mewn trawsgydymffurfio ac felly dylai bod yr 16,500 o ffermwyr sy'n hawlio'r taliad sylfaenol yn gwybod y rheolau hyn. Dywedodd Dennis y bu wrthi ers tua blwyddyn yn ceisio annog y tîm Aer Glân i ymgysylltu â'r grŵp hwn gan fod yr adran ar

amaethyddiaeth yn cynnwys yr un cynigion â'r adran ynghylch dŵr. Mae Dennis yn deall bod y Ddeddf Aer Glân wedi cwblhau'i thaith trwy'r Senedd ac y bydd yn dod i rym yn 2023, gan gynnwys systemau storio slyri. Gofynnodd Dennis pa waith sydd wedi'i wneud ar y mater hwn oherwydd mae'n ymddangos bod corff gwahanol yn gweithredu'r un rheolau gydag amseriadau gwahanol sydd fel petaent yn gwrthdaro.

Dywedodd Bob Vaughan, CNC, y bydd canllawiau newydd yn cael eu cyhoeddi a bod cyd-weithwyr yn CNC yn cydweithio'n agos ar hynny. Dywedodd Bob y byddai'n fwy na pharod i drafod y mater hwn ymhellach â Dennis all-lein.

***PG 02 Mawrth: Bod Bob Vaughan, CNC a Dennis Matheson, TFA yn cael trafodaeth fanylach ynghylch y canllawiau Aer Glân newydd.***

29. Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, fod yr Undeb wedi darparu crynodeb o'r rheoliadau yn ei gylchgrawn 'Farming Wales' a gafodd ei ddosbarthu i'w holl aelodau. Soniodd Rachel fod crynodeb o'r rheoliadau ar wefan NFU Cymru hefyd. Pan fydd y cynllun cyfathrebu llawn yn dod i law, bydd NFU Cymru yn ddigon parod i gyfeirio'i aelodau at wybodaeth ychwanegol.

    Dywedodd Rachel fod deall cymhlethdod y neges yn allweddol, er enghraifft, gall fod cyfnodau pontio ond mewn gwirionedd, ni all ffermwyr aros tan 1 Ionawr 2023 cyn dechrau ystyried sut y maent yn mynd i gydymffurfio â'r rheoliadau hynny ac mae'r un peth yn wir am y terfyn amser yn Awst 2024. Felly, mae angen i ffermwyr gael gwybod am y dyddiadau hyn ymhell cyn pryd gyda chynlluniau cynhwysfawr. Nododd Rachel fod y gynulleidfa'n amrywio gan fod rhai busnesau fferm wedi edrych yn fanwl ar y rheoliadau ac mae ganddynt bryderon enfawr o hyd, mae ffermwyr eraill yn sylweddoli bod rhywbeth yn digwydd ond yn ansicr ynghylch sut y bydd yn effeithio arnynt ac yna mae'r ffermwyr anodd eu cyrraedd y mae'n debygol y bydd angen llawer mwy o gymorth arnynt wrth fynd trwy'r set hwn o reoliadau cymhleth dros ben.

30. Dywedodd Chris Mills, WEL, fod WEL, yn yr un modd â CFF, yn edrych ar y sefyllfa trwy ben arall y telesgop. Mae yna gymuned sydd â diddordeb mawr yn y ffordd y caiff y rheoliadau hyn eu gweithredu. Bydd hi'n bwysig ceisio rheoli rhai o'r disgwyliadau wrth i'r rheoliadau newydd ddod i rym. Mae WEL yn awyddus i ddeall sut y mae CNC yn bwriadu eu rheoleiddio er mwyn medru ymateb mewn modd priodol.

    Dywedodd Chris fod llawer o bryder ynghylch llygredd amaethyddol. Efallai y bydd y gymuned hon yn disgwyl canlyniadau eithaf cyflym, ond mae'r rheoliadau'n cael eu cyflwyno dros nifer o flynyddoedd ac felly bydd gofyn rheoli disgwyliadau.

## Eitem 3 Trafod Adnoddau Ymarferol ar gyfer Ffermwyr

31. Gofynnodd Ed Davies, CNC, i'r grŵp feddwl am adnoddau neu dempledi posibl y gallai fod eu hangen ar ffermwyr i hwyluso cydymffurfedd â'r rheoliadau. Mae rhai rhaglenni ar gael i helpu ffermwyr gyfrifo'r slyri a gynhyrchir a phethau eraill, ond mae arnom angen deall a fydd y rhain yn dal i wneud y dasg angenrheidiol.

    Dywedodd Ed fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfrifiadau ar bapur gyda'r canllawiau a'r Cwestiynau Cyffredin, ond mae angen i ni sicrhau bod popeth yn cyd-fynd â'i gilydd. Efallai y gallai Llywodraeth Cymru a CNC, y rheoleiddiwr, gefnogi rhyw fath o ddull gweithredu y gellid ei ddefnyddio i ddangos cydymffurfedd. Mae'n amlwg y

bydd angen i ffermwyr gyfrifo slyri, ond bydd angen llwyfannau eraill ar ffermwyr er mwyn mapio'u tir, gan gynnwys y llethrau ac ati. Byddai'n dda gwybod a yw ffermwyr wedi meddwl am y pethau hyn, pa bryderon sydd ganddynt ynghylch cofnodi gwybodaeth a sut y byddant yn cadw cofnodion.

Gofynnodd y Cadeirydd beth oedd barn y grŵp ar hyn a gofynnodd tybed a ddylid treulio peth amser yn ceisio deall pa offer sydd ar gael ar hyn o bryd.

32. Gofynnodd James Ruggeri, Hybu Cig Cymru, a fydd Cyswllt Ffermio'n dal i allu cynnig peth cyllid ar gyfer Cynlluniau Rheoli Maethynnau nawr bod y rheiny'n rhan o'r rheoliadau.

    Cadarnhaodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, y bydd cyllid ar gael tan 10 Ionawr 2022 ar gyfer cyflwyno Cynlluniau Rheoli Maethynnau, Cynlluniau Rheoli Tail a seilwaith.

    Dywedodd James ei bod yn bwysig cyfeirio ffermwyr i fanteisio ar y cyllid cyn gynted â phosibl cyn iddo ddod i ben, gan fod llunio Cynlluniau Rheoli Maethynnau yn gallu bod yn waith costus i fusnesau fferm. Felly, mae angen i ffermwyr gael gwybod bod cymorth ar gael yn awr.

33. Gofynnodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod y Llyfr Gwaith NVZ ar gael fel y mae'n ei wneud ar hyn o bryd ar gyfer rheoliadau 2013.

    Dywedodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, fod y canllawiau ar gyfer y rheoliadau hyn newydd gael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a'r rhain yw'r canllawiau y dylai ffermwyr eu defnyddio. Mae'r ddogfen yn cynnwys templedi i'w defnyddio gan ffermwyr, gan gynnwys cynlluniau maethynnau a'r holl ofynion eraill. Felly, dylai ffermwyr gyfeirio at y canllawiau hyn a'u defnyddio.

    Cadarnhaodd Andrew na fyddai'r gofynion rheoli maethynnau yn dod i rym tan 1 Ionawr 2023 a dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru a Chyswllt Ffermio yn darparu cyllid i alluogi cydymffurfedd am gyfnod o 12 mis y tu hwnt i hynny, trwy'r Cynlluniau Datblygu Gwledig. Felly, gallai cyfleoedd fod ar gael am gyfnod hwy.

34. Gofynnodd Fraser McAuley, CLA, a fydd y canllawiau'n cymeradwyo amrediad o systemau neu ddulliau ar gyfer cofnodi'r data sy'n ofynnol o dan y rheoliadau newydd. Ar sail ei brofiad o NVZs yn Lloegr, dywedodd Fraser mai un o'r achosion mwyaf o dorri rheolau trawsgydymffurfio yw'r rheoliadau NVZ oherwydd eu cymhlethdod a'r amrywiaeth enfawr o ddewisiadau sydd ar gyfer cofnodi data. Awgrymodd Fraser efallai y gellid archwilio'r dewisiadau sydd ar gael ar gyfer cofnodi data er mwyn ceisio deall pa mor dda ydynt.

35. Dywedodd Nichola Salter, CNC, y byddai CNC, y rheoleiddiwr, yn derbyn unrhyw fath o dystiolaeth ysgrifenedig o gydymffurfedd â'r rheoliadau; felly nid oes angen i ffermwyr ddechrau o'r dechrau. Fodd bynnag, bydd angen i ffermwyr gwmpasu pob agwedd ar y rheoliadau. Dywedodd fod nifer mawr o achosion o dorri rheolau yn digwydd am fod ffermwyr neu'r asiantwyr sy'n gweithio ar eu rhan yn camddarllen y rheoliadau, yn enwedig o ran y cyfnod treigl o 12 mis, sy'n eithaf cymhleth. Pan fyddwn wedi goresgyn y rhwystr cychwynnol hwn ynghylch y cynllun cyfathrebu, dylai pawb edrych ar yr hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer y cynlluniau rheoli maethynnau a'r terfynau 250 kg/ha a

170 kg/ha, oherwydd dyna'r agweddau mwyaf cymhleth. Mae rheoli'r rhain yn gymhleth ac mae ysgrifennu'r cofnodion yn gymhleth. Awgrymodd Nichola y dylid canolbwyntio'r ymdrechion ar y meysydd hyn wrth ddarparu hyfforddiant.

Dywedodd Nichola ei bod wedi cael sgyrsiau byr gydag AHDB a'u bod nhw gobeithio adolygu'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer cynlluniau rheoli maethynnau a manteision ac anfanteision pob un, y rhai sydd ar gael am ddim ac eraill sydd ar gael am ffi fach, a chyhoeddi rhestr ohonynt. Mae AHDB eisoes wedi cyhoeddi rhestr o labordai sy'n dadansoddi pridd ac mae'n gobeithio gallu cyhoeddi rhagor o wybodaeth y gellir ei hyrwyddo ar lefel ehangach ledled Cymru i helpu ffermwyr.

Dywedodd Bob Vaughan, CNC, fod CNC bellach yn edrych ar sut y mae symud ymlaen â'r rheoliadau a bydd yn ceisio cyflwyno offer neu dechnegau i'r grŵp er mwyn helpu i dargedu'r gwaith hwn yn well, er enghraifft, sut y byddai ffermwyr yn cael gwybod a oes ganddynt dir y mae'i oleddf yn fwy na 12 gradd. Dywedodd Bob fod data LiDAR ar gael ar gyfer Cymru gyfan felly hwyrach y byddai modd eu mapio a'u rhoi i drydydd parti a allai ddarparu'r gwasanaeth i ffermwyr. Mae sawl peth y gallem edrych arno er mwyn pennu pa offer y mae eu hangen i hwyluso'r broses.

36. Dywedodd Jamie McCoy, AHDB, fod angen i'r diwydiant ddarparu arweinyddiaeth bendant ynghylch y templedi a'r hyn y bydd ffermwyr yn eu defnyddio ar gyfer y cofnodion a'r cyfrifiadau. Bydd y ffermwyr sy'n pryderu fwyaf ar hyn o bryd fwy na thebyg yn talu eu hymgynghorwyr eu hunain i wneud y cyfrifiadau hyn drostynt. Gwyddom fod ymgynghorwyr yn aml yn hoffi defnyddio'u fersiynau eu hunain o'r offer cyfrifo ac y bydd rhaid i ffermwyr dalu am ddatblygu'r offer hyn yn yr hirdymor. Fodd bynnag, mae offer ar gael am ddim ar hyn o bryd, y byddai modd eu haddasu rywfaint i'w gwneud yn addas i'r diben ac mae AHDB yn cynnig cymorth ar ffurf y Slurry Wizzard Tool ac unrhyw addasiadau y mae angen eu gwneud. Fodd bynnag, os bydd hi'n fwy o dasg, gorau po gyntaf i ni amlygu hynny er mwyn i ni allu llunio a darparu rhywbeth y gall ffermwyr ac ymgynghorwyr ei ddefnyddio am ddim. Bydd hynny'n ei gwneud yn haws ac yn llai costus i ffermwyr gydymffurfio, oherwydd mae pryder y gall ffermwyr gredu bod angen iddynt gyflogi ymgynghorydd i wneud yr holl waith hwn drostynt.

37. Dywedodd Bob Vaughan, CNC, fod CNC wedi nodi gwahanol lefelau o wasanaeth y gellir eu darparu o ran gorfodi'r rheoliadau newydd. Bydd lefel y gwasanaeth a ddarperir yn dibynnu ar yr adnoddau a fydd ar gael ac mae CNC wedi llunio nifer o ddewisiadau gwahanol ar gyfer cyflawni'r gwaith. Mae CNC wedi cytuno'n fewnol ar y dewis gorau sy'n ateb y gofynion ac yn fforddiadwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael yr wybodaeth hon ac mae'n cynnal trafodaethau â CNC er mwyn cael hyd i'r adnoddau i fedru cyflwyno'r gwasanaeth hwnnw. Os bydd adnoddau CNC yn cynyddu, bydd rhaid cyflogi staff a'u hyfforddi a bydd hynny'n cymryd peth amser. Bydd rheoli disgwyliadau yn allweddol a bydd rhaid i CNC wneud rhywfaint o waith i sicrhau bod y sector yn gwybod beth y bydd CNC yn ei wneud a sut y bydd yn ei wneud, er mwyn gallu rheoli disgwyliadau. Mae'r gwaith mewnol i nodi sut y bydd CNC yn gweithio a sut y bydd yn cyflawni'r hyfforddiant yn parhau.

Dywedodd Nichola Salter, CNC, fod CNC yn datblygu canllawiau i'r staff wrth i'r trafodaethau barhau gyda LlC ynghylch yr adnoddau a'r amlder archwilio sy'n ofynnol. Cyflwynir y canllawiau i'r staff trwy raglen fesul cam sy'n adlewyrchu dyddiadau gweithredu'r gwahanol fesurau yn y rheoliadau. Bydd y cyfnodau pontio yn y

rheoliadau a diddymu'r rheoliadau presennol yn golygu y bydd rhai meysydd gorfodi yn gymhleth. Dywedodd Nichola, os yw'r aelodau o Is-grŵp WLMF yn ystyried rhoi gwybod am ddigwyddiadau i linell ddigwyddiadau CNC, y dylent fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ar weithredu oddi mewn i'r rheoliadau hyn.

Roedd Nichola wedi atgoffa'r grŵp am y diffiniadau clir iawn a bennwyd yn y rheoliadau ac yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru i Ffermwyr a Rheolwyr Tir ynghylch Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 a gofynnodd i holl aelodau'r grŵp gyfeirio at y rhain os byddant yn ystyried rhoi gwybod am ddigwyddiadau (er enghraifft, y diffiniad o'r gair dwrlawn) a darparu cymaint o wybodaeth â phosibl.

O ran achosion o dorri rheolau Trawsgydymffurfio, mae'n rhaid i Daliadau Gwledig Cymru ddefnyddio'r Safonau Dilysadwy Trawsgydymffurfio 2021 LLYW.CYMRU sy'n pennu canllawiau clir ynghylch sut a phryd y gellir pennu sgôr tramgwyddau.

Bydd CNC yn dosbarthu'r canllawiau mewnol ymhlith y grŵp pan fyddant wedi cael eu cymeradwyo'n fewnol. Dywedodd Bob Vaughan y byddai CNC yn croesawu sylwadau arnynt a'u bod yn fwy na pharod i'w rhannu â'r sector er mwyn i bobl ychwanegu atynt neu eu defnyddio fel ffynhonnell wybodaeth am ddim.

Dywedodd Nichola bod llawer o wybodaeth sy'n targedu ffermwyr yn cael ei dosbarthu mewn cyfnod byr o amser ac mae'r cynllun cyfathrebu ar y cyd yn allweddol bwysig o ran sicrhau cysondeb.

***PG 03 Mawrth: Bod Nichola Salter, CNC yn anfon canllawiau mewnol CNC at aelodau'r grŵp, er gwybodaeth, wedi iddynt gael eu cymeradwyo'n fewnol.***

38. Cyfeiriodd Creighton Harvey, CFF, at ddigwyddiad y noson cyn i'r Gweinidog gyhoeddi'r rheoliadau, pan ollyngwyd cyfaint sylweddol o slyri i nant. Dywedodd Creighton ei fod wedi llwyddo i olrhain ffynhonnell y digwyddiad i lethr serth iawn ar ôl glaw trwm trwy'r dydd pan oedd y tir yn ddirlawn. Dywedodd Creighton ei fod wedi rhoi gwybod am y digwyddiad a chyflwyno ffotograffau, gan gynnwys ffotograffau agos a rhai cyffredinol. Ni ddaeth neb i gael golwg ar y digwyddiad a dywedwyd wrth Creighton fod yr achos yn flaenoriaeth isel. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau'n newid y sefyllfa hon mewn modd dramatig oherwydd yr oedd popeth a ddigwyddodd yn ystod y digwyddiad hwnnw yn torri'r rheoliadau sy'n dod i rym yn awr. Mae hyn yn darlunio'r gwrthdaro rhwng canllawiau presennol CNC ynghylch galwadau allan a'r newidiadau i'r sefyllfa o dan y rheoliadau newydd hyn. I gloi, dywedodd Creighton fod angen datrys y gwrthdaro hwn ac yr oedd CFF am weld cynnydd ar y mater.

Dywedodd Bob Vaughan, CNC, fod hon yn her fawr wrth i'r rheoliadau newydd newid y ffordd y mae CNC yn ymateb, nid yn unig i ddigwyddiadau amaethyddol, ond i bob digwyddiad. Esboniodd Bob na fyddai CNC ond yn mynd allan, yn y gorffennol, os oedd llygredd wedi digwydd ond yn awr, bydd rhaid mynd allan cyn bod rhywbeth yn digwydd. Dywedodd Bob fod hwn yn beth cadarnhaol, ond byddai'n newid y ffordd y mae CNC yn ymateb i ddigwyddiadau a bydd goblygiadau hynny yn sylweddol iawn.

## Eitem 4 Adroddiad Ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd

39. Rhoddodd Tristan Hatton-Ellis, CNC, gyflwyniad i'r grŵp ynghylch Asesiad Cydymffurfedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cymru yng nghyswllt Targedau Ffosfforws. Esboniodd Tristan y byddai'r cyflwyniad yn trafod y targedau ffosfforws newydd ar gyfer afonydd ardaloedd cadwraeth arbennig (ACA) Cymru, sy'n safleoedd wedi'u diogelu o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Byddai hefyd yn disgrifio'r gydymffurfedd â'r targedau hynny.

40. Rhoddodd Tristan amlinelliad byr o ddiben a rolau CNC:

- Mynd ar drywydd Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol yw'r diben

    - Monitro'r amgylchedd a rhoi adroddiadau

    - Corff Cadwraeth Natur Priodol (ANCB) ar gyfer Cymru – rhaid i awdurdodau cymwys ymgynghori â CNC yn ystod asesiad priodol

    - Ymgynghorai Statudol yn y system gynllunio – cyngor ynghylch sut y dylai polisïau cynllunio a chynigion datblygu amddiffyn a gwella'r amgylchedd a chaniatáu rheolaeth gynaliadwy ar ein hadnoddau naturiol

    - Rheoleiddiwr amgylcheddol – Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 fel y'i diwygiwyd sy'n darparu'r prif fframwaith cyfreithiol i CNC reoleiddio gweithgareddau a all achosi niwed i iechyd dynol neu i'r amgylchedd

41. Disgrifiodd Tristan gefndir y gwaith hwn:

- Diogelir pob ACA o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, fel y'u diwygiwyd (y Rheoliadau Cynefinoedd)

- Mae CNC wedi pennu safonau ffosffad newydd ar gyfer ardaloedd cadwraeth arbennig afonol yn sgil y canllawiau Monitro Safonau Cyffredin diwygiedig a ddiweddarwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC).

- Mae'r Targedau 50%-80% yn llymach na'r rhai blaenorol

- Mewn asesiad cydymffurfedd, a gynhaliwyd gan CNC gan ddefnyddio'r safonau, canfuwyd methiant i gyrraedd y targedau yn afonydd Dyfrdwy, Cleddau, Gwy, Teifi ac, yn fwyaf arwyddocaol, yn afon Wysg.

42. Rhoddodd Tristan drosolwg o'r ardaloedd cadwraeth arbennig afonol yng Nghymru:

- Mae 9 ACA yng Nghymru, sef: Afon Gwyrfai, Afon Dyfrdwy, Afon Glaslyn, Afon Eden, Afon Teifi, Afon Gwy, Afonydd Cleddau, Afon Tywi ac Afon Wysg

- Targedau ffosffad llymach yn sgil tystiolaeth newydd ynghylch effaith Ffosfforws ac yng nghyd-destun y newid yn yr hinsawdd

- Mae Adolygiad Tystiolaeth gan CNC yn dangos bod mwy na 60% o afonydd yn methu

43. Aeth Tristan ymlaen i drafod pam y mae Ffosfforws yn bwysig:

- Mae Ffosfforws yn faethyn hanfodol a nerthol ar gyfer planhigion ac yn allweddol bwysig felly ar gyfer ecosystemau, ond mae gormod ohono'n beth drwg
- Mae gormod o Ffosfforws:
    - Yn achosi newidiadau niweidiol i ecosystemau afonydd, gan ysgogi twf rhywogaethau niwsans fel algâu
    - Yn arwain at niweidio rhywogaethau pwysig megis crafanc y dŵr, neu eu colli
    - Yn gallu achosi i raeanau afonydd fynd yn ddadocsigenedig, gan ladd infertebratau afonydd
    - Yn cynyddu risg gordyfiant algâu, yn enwedig mewn cyfuniad â phwysau eraill fel sychder neu golli cysgod ar afonydd
    - Yn aml yn arwydd o broblemau eraill o ran ansawdd dŵr, fel amonia neu lefelau isel o ocsigen

44. Rhoddodd Tristan grynodeb o strwythur y Targedau Newydd:

- Mae gwahaniaethau naturiol mewn crynodiadau ffosfforws mewn gwahanol fathau o afonydd ac mae'r targedau'n adlewyrchu hynny
- Dylai'r crynodiadau adlewyrchu'r crynodiadau cefndir naturiol i'r graddau y bydd hynny'n bosibl, gan leihau tebygolrwydd effeithiau negyddol (e.e. bygythiad i gyfanrwydd y safle)
- Lle na fydd hynny'n bosibl, mae targedau 'mwyafswm a ganiateir' yn bosibl er mwyn caniatáu ar gyfer effaith seilwaith allweddol (e.e. gwaith trin carthion sydd eisoes yn bodoli)
- Clustnodwyd targedau yng Nghymru yn 2016 trwy ymarferiad cenedlaethol, gan ddefnyddio'r data ffosfforws a oedd ar gael bryd hynny
- Rhannwyd afonydd yn ddyfroedd (yr un fath â chyrff dŵr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr)
- Mae'r targedau newydd yn llawer llymach

45. Roedd y cyflwyniad yn rhoi enghraifft o'r targedau newydd ar gyfer Afon Wysg:

- Mae crynodiadau is yn angenrheidiol yn y blaenddwr ym mhen uchaf y dalgylch
- Caiff crynodiadau sydd ychydig yn uwch eu caniatáu i lawr yr afon

46. Trafododd Tristan y sefyllfa bresennol o ran cydymffurfedd â'r targedau:

- Cynhaliodd CNC adolygiad o gydymffurfedd â thargedau ffosfforws ardaloedd cadwraeth arbennig yn 2020

- Crynhowyd y data ffosfforws perthnasol o 2017-2019 a chyfrifwyd y lefelau cydymffurfedd

- Defnyddiwyd 2659 o fesuriadau unigol o 107 o gyrff dŵr

- Sicrhawyd ansawdd yr holl ddata

- Yn gyffredinol, pasiodd 39% o’r cyrff dŵr eu targedau

- Mae bwriad i adolygu cydymffurfedd â thargedau eraill ar gyfer ardaloedd cadwraeth arbennig dŵr croyw eleni

47. Rhoddodd Tristan drosolwg o’r canfyddiadau cyffredinol a chyflwynodd gyfres o fapiau:

- Gogledd Cymru – yn pasio gan fwyaf

- De-orllewin Cymru – darlun cymysg, rhai methiannau mawr ar afonydd Cleddau

- Afon Wysg – yn methu gan fwyaf gyda rhai methiannau mawr

- Afon Gwy – darlun cymysg ond mae rhai methiannau sylweddol sy’n achosi pryder

48. I gloi, rhoddodd Tristan grynodeb o’r gwaith hwn:

- O’r 107 o gyrff dŵr a aseswyd, yr oedd 42 (39%) yn pasio’u targedau ffosffad ACA ac yr oedd 65 (61%) yn methu

- Yn y cyrff dŵr a gyrhaeddodd y safon, mae’r hyblygrwydd i ddygymod â lefelau uwch o ffosffadau yn gallu bod yn gyfyngedig

- Os caniateir i lefelau ffosffad godi, mae perygl y gallai’r cyrff dŵr fethu

- Nid oes hyblygrwydd i ddygymod â lefelau uwch yn y cyrff dŵr sydd eisoes yn methu’r targed. Bydd cynnydd pellach mewn ffosffad yn achosi dirywiad pellach yng nghyflwr yr ACA.

49. Diolchodd y Cadeirydd i Tristan am ei gyflwyniad diddorol iawn a gofynnodd a oedd gan yr aelodau unrhyw gwestiynau.

50. Dywedodd Chris Mills, WEL, ei fod o’r farn fod y cyflwyniad yn glir iawn ac awgrymodd y dylid ei rannu’n fwy helaeth er mwyn helpu i ddarparu gwybodaeth i bobl. Gofynnodd Chris a oedd y gwaith monitro’n ddigonol ac a oedd gan gynllunwyr y gallu i wneud penderfyniadau gan fod hwn yn fater technegol.

    Eglurodd Tristan fod yr asesiad yn digwydd bob ychydig o flynyddoedd, ond y mae’r gwaith monitro yn gyson ac yn cael ei gynnal bob mis, yn gyffredinol, dros gyfnod o dair blynedd. Gofynnodd Chris a oedd asesiad bob pedair blynedd yn sail ddigonol ar gyfer penderfyniadau gan gynllunwyr. Dywedodd Bob Vaughan, CNC, y bydd CNC yn ceisio rhoi cymaint o’r wybodaeth â phosibl ar waith, nawr bod y ffigurau ar gael, ac yn cymryd camau i leihau ffosffadau yn gyffredinol. Bydd monitro parhaus yn allweddol a

bydd CNC yn edrych ar y ffigurau wrth symud ymlaen ond bydd adolygiad mwy ffurfiol yn cael ei gynnal bob pedair blynedd. Gofynnodd Chris a yw cynllunwyr yn seilio'u penderfyniadau ar yr asesiad diweddaraf oherwydd gall pethau newid yn sylweddol mewn pedair blynedd. Dywedodd Bob y byddai'n gwirio hynny ac yn cysylltu'n ôl â Chris.

***PG 04 Mawrth: Bod Bob Vaughan, CNC, yn holi a yw cynllunwyr yn seilio'u penderfyniadau ar yr asesiad diweddaraf ac yn rhoi adborth i Chris Mills, WEL.***

Eglurodd Tristan mai'r cynllunwyr yw'r awdurdodau cymwys yn hyn o beth ac mae CNC wedi darparu'r cyngor hwn i helpu i gefnogi eu gwaith nhw. Mae CNC hefyd wedi ateb cwestiynau atodol gan yr awdurdodau cynllunio er mwyn rhoi manylion ychwanegol, cyd-destun ac esboniad iddynt am y camau a gymerwyd. Dywedodd Tristan fod hwn yn faes sy'n datblygu ond mae CNC bellach yn gweithio'n agos iawn gydag awdurdodau cynllunio. Adleisiodd Bob Vaughan, CNC, fod hwn yn faes sy'n datblygu a bod CNC yn gweithio'n agos gyda'r awdurdodau cynllunio a Llywodraeth Cymru i roi sylw i hyn. Cyfeiriodd Bob at yr egwyddor fod swm enfawr o waith i ôl-osod safleoedd, ar ben y gwaith cynllunio newydd. Mae'n rhaid i CNC edrych ar y gweithgareddau presennol, boed yn ffermydd, tanciau carthion, gwaith trin carthion ac ati i weld sut y gellir gwella a chreu hyblygrwydd. Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng peidio â gwneud sefyllfa'n waeth, peidio ag atal datblygu, a gwella ffosffadau.

51. Er mwyn deall y goblygiadau cynllunio, gofynnodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, yn gyntaf petai ffermwr mewn dalgylch ACA am fuddsoddi mewn system storio slyri, a fyddai modd iddo fynd trwy'r broses gynllunio yn llwyddiannus os nad oes hyblygrwydd yn yr ACA. Gofynnodd Rachel a roddwyd ystyriaeth i'r math o bridd sylfaenol wrth bennu'r targedau. Yn olaf, gofynnodd a oedd CNC wedi cymharu'r dalgylchoedd sy'n methu â choedwigaeth gonifferaidd ac ardaloedd llwyrgwympo, oherwydd mae tystiolaeth dda i awgrymu bod ffosffadau'n cael eu colli o'r torion a gedwir mewn ardaloedd llwyrgwympo.

Dywedodd Tristan na fyddai system storio slyri yn gollwng i afon felly byddai fwy na thebyg yn cael ei hystyried yn ddatblygiad niwtral o ran ffosffad neu hyd yn oed yn ddatblygiad llesol oherwydd byddai system o'r fath yn lleihau'r perygl bod maethynnau'n mynd i afon. Gofynnodd Rachel a roddwyd cyfarwyddyd i'r awdurdodau cynllunio lleol fod systemau storio slyri newydd yn cael eu hystyried yn niwtral o ran ffosffad. Dywedodd Bob Vaughan, CNC, fod CNC yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio lleol i roi'r canllawiau a'r offer cywir iddynt ar gyfer gwneud penderfyniadau. Dywedodd Rachel y byddai'n dda pe gellid rhannu'r canllawiau hynny â'r grŵp oherwydd mae'r hyn sy'n cael ei ddweud ar y wefan yn wahanol. Byddai'n ddefnyddiol iawn petai canllawiau ar gael sy'n dweud yn benodol fod systemau storio slyri yn niwtral o ran ffosffad.

***PG 05 Mawrth: Bod Bob Vaughan, CNC, yn rhannu canllawiau â'r grŵp sy'n dweud bod systemau storio slyri newydd yn cael eu hystyried yn ddatblygiadau niwtral o ran ffosffad.***

Dywedodd Tristan nad yw'r gwaith hwn yn rhoi ystyriaeth uniongyrchol i'r math o bridd, felly nid oes cydraniad manwl ar y raddfa hon. Ystyrir alcalinedd yr afon, sef pa mor asidig neu alcalïaidd yw'r afon, sy'n brocsi ar gyfer y math o bridd. Mae'r targedau'n

realistig ac yn gyraeddadwy yn y rhan fwyaf o leoliadau, felly nid yw hon yn broblem fawr.

Dywedodd Tristan na luniwyd troshaen ar gyfer coedwigaeth gonifferaidd ac nad oedd hwn yn cael ei hystyried yn fater pwysig ond byddai modd ymchwilio iddo. Yn gyffredinol, nid yw coedwigaeth yn croestorri â rhwydwaith afonydd ACA. Dywedodd Rachel fod ganddi ddiddordeb penodol yn nyfroedd uchaf afon Irfon ac afon Wysg. Nid yw'r adroddiad yn gwneud llawer i ddeall yr achosion gwaelodol, ond mae'n cynnig rhai awgrymiadau nad ydynt, mewn gwirionedd, yn cyd-fynd â phrofiadau bywyd ar lawr gwlad. Dywedodd Bob fod CNC yn gweithio ar ddosrannu ffynhonnell er mwyn ceisio deall o ble mae'r lefelau'n dod er mwyn gallu canolbwyntio ymdrechion.

52. Dywedodd Bernard Griffiths, FUW, fod y gallu i ddosrannu'r llwyth ffosffad i sectorau maes gwahanol yn allweddol a gofynnodd pa offer sydd ar gael i wneud hynny. Gofynnodd hefyd, tybed sut y gellir dehongli heb y data dosrannu. Cyfeiriodd Bernard at rai canlyniadau rhyfedd a ddynodir ar y mapiau, er enghraifft, clywir yn aml am ddigwyddiadau slyri yn nyffryn Tywi isaf, sy'n ardal ddwys, ond eto nid oes dim methiannau yno.

Roedd Tristan yn cytuno bod data dosrannu ffynhonnell yn bwysig, yn enwedig wrth ystyried buddsoddiadau mawr fel gwaith trin carthion neu wrth wneud penderfyniadau mawr. Fodd bynnag, dywedodd Tristan na ddylid disgwyl cael tystiolaeth sylweddol ar gyfer pob penderfyniad a wneir, ac yr ydym yn gwybod llawer am arferion da. Mae llawer o arferion da y gallem eu rhoi ar waith ar hyd ein hafonydd ac mae nifer o'r rhain yn ymwneud â rheoli tir. Dywedodd Tristan fod llawer o sectorau gwahanol ac mae deall cyfraniad pob un ohonynt yn ddefnyddiol, ond nid yw'r wybodaeth honno'n debygol o fod yn berffaith ac mae'n debygol iawn y caiff ei defnyddio fel offeryn bwrw bai.

Dywedodd fod sefyllfa afon Tywi yn syndod, ond nid oes llawer o waith trin carthion yn mynd i mewn iddi ac mae ganddi ddalgylch eang ar yr ucheldir ac mae gwanedu helaeth yn digwydd. Os oes problem ar afon Tywi, mae'n bosibl nad yw honno'n gysylltiedig â ffosfforws a gallai problemau ddod i'r golwg mewn mathau eraill o benderfynyddion ansawdd dŵr.

53. Gofynnodd Creighton Harvey, CFF, a oedd y gwaith monitro ar afon Tywi yn cael ei gynnal ar y brif afon ynteu'r isafonydd. Dywedodd Tristan fod y gwaith monitro'n cael ei gynnal ar y brif afon oherwydd dyma'r rhan a ddynodwyd yn ACA. Mae cyrff dŵr afon Tywi yn eithaf helaeth felly nid oes yna gymaint â hynny o bwyntiau samplu. Fodd bynnag, roedd yr holl bwyntiau samplu'n cael eu monitro'n dda a chesglid data misol. Dywedodd Tristan ei fod yn hyderus ynghylch y data a gesglir. Byddai CNC yn hoffi edrych hefyd ar fathau eraill o benderfynyddion ansawdd dŵr ac mae'n bosibl y gallai'r rhain gynnig darlun gwahanol o afon Tywi ond ni allwn ddamcaniaethu ar hyn o bryd. Dywedodd Creighton fod achosion yn ymwneud â lladd pysgod yn isafonydd afon Tywi wedi cyrraedd y llysoedd yn ddiweddar. Eglurodd Tristan nad yw ffosffad mewn gwirionedd yn fath o docsin ac mae'n annhebygol ei fod yn gyfrifol am ladd pysgod. Pan fydd slyri neu laeth yn arllwys i afon, bydd yn achosi i'r dŵr ddadocsigeneiddio'n llwyr ac yn lladd y pysgod; felly nid ffosffad o reidrwydd sy'n achosi'r difrod.

Dywedodd Creighton fod yr asesiad hwn wedi'i gynnal yn 2020 a'i fod yn seiliedig ar ddata sy'n cwmpasu 1 Ionawr 2017 i 31 Rhagfyr 2019, a gofynnodd pryd y pennwyd y

targedau ar gyfer yr afonydd hynny. Dywedodd Tristan y pennwyd y targedau ynghanol 2016. Gofynnodd Creighton a oedd y ffigurau amheus o'r cyfnod 2014 i 2016 wedi dylanwadu ar y targedau a bennwyd yn 2016. Dywedodd Tristan y defnyddiwyd data hŷn yn lle hynny, ond er bod y posibilrwydd lleiaf fod rhai ffigurau amheus o ganol 2014 wedi cael eu cynnwys, gwiriwyd hynny ac nid oedd wedi cael effaith berthnasol ar y targedau. Mae rhai problemau bach yn derbyn sylw ac mae CNC yn adolygu targedau ond nid oes bwriad i wneud newidiadau helaeth oni bai bod gwall amlwg. Gofynnodd Creighton sut y gallai'r cynnydd sydyn yn lefelau'r data rhwng 2014 a 2016, a gafodd eu dileu, fod wedi effeithio ar y targedau. Dywedodd Tristan y byddent wedi arwain at dargedau llymach.

54. Diolchodd y Cadeirydd i Tristan am ei gyflwyniad diddorol a ddangosai gwerth tystiolaeth dda.

55. Gofynnodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, beth oedd y drefn o ran cysylltu â Tristan ynghylch yr adroddiad penodol hwn. Dywedodd Tristan mai defnyddio dolenni cyswllt CNC ar yr Is-grŵp fyddai orau, fwy na thebyg. Awgrymodd Tristan y gallai Rachel siarad â Bob yn gyntaf i drafod y posibilrwydd o drefnu cyfarfod ar wahân.

***PG 06 Mawrth: Bod Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, yn siarad â Bob Vaughan, CNC, ynghylch trefnu cyfarfod ar wahân i drafod yr adroddiad ACA ymhellach.***

56. Gofynnodd Chris Mills, WEL, a fyddai modd i'r grŵp gael copi o'r cyflwyniad pan gaiff y cofnodion eu dosbarthu. Cytunodd Tristan i rannu'i gyflwyniad.

***PG 07 Mawrth: Bod Bronwen Martin, CNC, yn rhannu cyflwyniad Tristan â'r grŵp pan fydd hi'n dosbarthu cofnodion drafft y cyfarfod.***

57. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, mai prif ffynhonnell ffosffad tan y 1980au oedd slag basig a chalch a ddefnyddid yn helaeth i wella tir pori ar yr ucheldir ond wrth i'r diwydiant dur ddirywio, defnyddiwyd uwchffosffad yn lle hynny. Gofynnodd Dennis a oedd ffigurau i awgrymu bod y broblem ffosffad wedi gwaethygu ers i'r hyn a ddefnyddid gael ei newid yn y 1980au. Dywedodd Tristan fod hwn yn amser pell yn ôl ac er bod yna setiau data sy'n mynd yn ôl mor bell â hynny, byddai'n anodd dehongli'r data. Awgrymodd Tristan y gallai hwn fod yn gwestiwn i academyddion ei ystyried mewn prosiect ymchwil.

## Eitem 5 Cadarnhau Dalgylchoedd Cyswllt Ffermio ar gyfer 2021

58. Roedd Ed Davies, CNC, wedi anfon gwybodaeth at aelodau'r grŵp cyn y cyfarfod yn amlinellu dalgylchoedd blaenoriaeth arfaethedig Cyswllt Ffermio. Rhannodd Ed ei sgrin a rhoddodd amlinelliad cryno o'r dulliau a ddefnyddiwyd i awgrymu'r dalgylchoedd hyn.

59. Dywedodd Ed fod y dalgylchoedd a argymhellwyd wedi cael eu dewis ar sail sicrhau rhaniad daearyddol rhesymol o amgylch ardaloedd Swyddogion Ffermio Cyswllt Ffermio.

60. Gofynnodd Ed am farn a safbwyntiau'r grŵp ar y dalgylchoedd a awgrymwyd. Cynigiwyd y gallai'r grŵp edrych yn fanwl ar yr wybodaeth a ddarparwyd yn y papur diweddaru ac anfon unrhyw sylwadau neu awgrymiadau at Ed.

***PG 08 Mawrth: Bod y grŵp yn edrych ar yr wybodaeth am Ddalgylchoedd Cyswllt Ffermio ac yn anfon unrhyw sylwadau neu awgrymiadau at Ed Davies, CNC.***

61. Dywedodd Creighton Harvey, CFF, ei fod ef a Shane Thomas wedi cynnal sgyrsiau gyda CNC ynghylch afonydd ym mhen gorllewinol Sir Gaerfyrddin a gofynnodd a oedd modd rhoi amserlen ar gyfer y gwaith hwn. Dywedodd Ed mai'r rheswm pam na ddewiswyd y dalgylchoedd hyn oedd fod Cyswllt Ffermio eisoes wedi cynnal nifer o weithgareddau ymgysylltu yn yr ardaloedd hynny. Hefyd, roedd sgôr y dalgylchoedd hyn ychydig yn is na'r dalgylchoedd a ddewiswyd yn yr ardaloedd hyn. Dywedodd Ed ei fod yn deall bod pryderon penodol wedi cael eu codi ynghylch llygredd fferm yn yr ardaloedd hynny ac awgrymodd y gallai gael gair â Chyswllt Ffermio i weld pa groeso a gafodd yr ymgysylltiad yn yr ardaloedd hynny ac a ydynt yn credu iddynt gyrraedd y gynrychiolaeth y gobeithiwyd ei chyrraedd. Ni roddwyd sgôr enfawr iddynt yn y system sgorio ond nid yw hynny'n golygu nad oes problemau yn yr ardaloedd hynny, defnyddiwyd y system fel canllaw yn unig. Dywedodd Creighton fod y rhain yn ardaloedd lleol i rai o aelodau CFF a bod pryderon wedi'u mynegi. Y lle mwyaf lleol i Creighton yw afon Gwendraeth, ond mae CFF yn croesawu cynnwys afon Fenni, afon Crychiau ac afon Annell. Gofynnodd Creighton a fu unrhyw fewnbwn blaenorol mewn perthynas ag afon Crychiau neu afon Annell. Dywedodd Ed y byddai'n well gofyn i Gyswllt Ffermio gadarnhau hynny ond yn ôl yr wybodaeth a grynhowyd ar y daenlen, ni wnaed gwaith blaenorol ar afon Annell ond cynhaliwyd digwyddiad ym mis Hydref 2018 ar gyfer afon Crychiau. Roedd Ed a Creighton yn cytuno y gellid cyfnewid afon Crychiau am ddalgylch nas ymgysylltwyd ag ef hyd yn hyn. Gofynnodd Creighton faint o amser a oedd gan y grŵp i gynnig awgrymiadau ynghylch afonydd y gellid eu cynnwys. Gofynnodd Ed i Einir Williams, Cyswllt Ffermio, pa fath o amserlen a oedd ganddynt mewn golwg. Dywedodd Einir fod Cyswllt Ffermio yn barod i symud unwaith y câi'r dalgylchoedd hyn eu cadarnhau, a bydd y digwyddiadau a drefnir yn awr yn weithdai a gweminarau digidol ond efallai y gellid ystyried eu cynnal ymhen rhyw fis. Awgrymodd Creighton fod yr aelodau'n cyflwyno unrhyw sylwadau priodol cyn pen 7 niwrnod.

***PG 09 Mawrth: Bod y grŵp yn gwneud unrhyw awgrymiadau neu sylwadau ynghylch dalgylchoedd Cyswllt Ffermio cyn pen 7 niwrnod ac yn eu hanfon trwy'r e-bost i gyfeiriad yr Is-grŵp.***

62. Gofynnodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, i Ed egluro beth yr oedd y lliwiau ar y map yn ei gynrychioli. Dywedodd Ed eu bod yn cyfateb i'r sgôr ar y system daenlen.

## Eitem 6 Unrhyw Fater Arall

63. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfodydd yn y dyfodol yn caniatáu amser i drafod 'Materion sy'n Codi' o'r cofnodion a'r papur diweddaru. Fodd bynnag, os bydd angen trafodaeth helaeth ar y mater, rhowch wybod i ni er mwyn iddo gael ei gynnwys ar agenda'r cyfarfod.

64. Bydd y grŵp yn darllen trwy gofnodion y cyfarfodydd diwethaf ac yn eu cymeradwyo'n ffurfiol yng nghyfarfod nesaf yr Is-grŵp. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau roi gwybod i Bronwen os byddai ganddynt unrhyw sylwadau neu newidiadau.

65. Cynhelir cyfarfod nesaf yr Is-grŵp ddydd Llun 19 Ebrill 2021.

66. Dywedodd Ed Davies, CNC y bydd cyfarfod yn cael ei drefnu'n fuan i drafod y Safon Dŵr ond yr oedd yn gobeithio cael ryw syniad o'r amser mwyaf cyfleus, er enghraifft, a fyddai rhai diwrnodau neu amseroedd yn well na'i gilydd. Awgrymodd y Cadeirydd y gellid llunio arolwg ar gyfer yr aelodau sydd wedi gwirfoddoli ar gyfer y dasg hon. Roedd Ed yn cytuno a dywedodd y byddai'n cysylltu â'r aelodau perthnasol yn fuan.

67. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r grŵp am eu cyfraniad i'r trafodaethau pwysig a gafwyd yn y cyfarfod.

## Diwedd y Cyfarfod